

HEB EI FARCIO'N DDIOGEL

GWEITHDREFN		
Teitl:	Trwyddedu Arfau Tanio - Gweinyddu	
Maes Arfer / Busnes:	Drylliau Tanio (y tu allan i'r heddlu)	
Yr Adran sy'n Gyfrifol:	Rheoli Gwybodaeth	
Cyhoeddwyd Gyntaf:	15/08/14	
Adolygydd Ddiwethaf:	01/11/2019	
Dyddiad yr Adolygiad Nesaf:	Tachwedd 2022	Mae'r ddogfen hon yn gymwys i gyflogeion:
Rhif Fersiwn:	02	Prif Gwnstabl
AMCAN GWEITHDREFN HEDDLU DE CYMRU:		
Cadw De Cymru'n ddiogel drwy sicrhau diogelwch cyhoeddus drwy reolaethau priodol ar arfau tanio a bwledi a chetris.		
CANLLAWIAU:		
Mae rhagor o wybodaeth a chanllawiau ar gael ar wefan y Swyddfa Gartref www.gov.uk - Canllaw'r Swyddfa Gartref ar Gyfraith Trwyddedu Arfau Tanio		
ASESIAD RISG CYFFREDINOL:		
Nid oes angen asesiad risg lechyd a Diogelwch.		
GWEITHDREFN:		
Gwneud cais am dystysgrif (Aelodau o'r Cyhoedd)		
Gall unrhyw un sy'n dymuno gwneud cais am neu adnewyddu tystysgrif dryll tanio, gwn neu gofrestru'n werthwr arfau tanio neu ymwelydd, gael y ffurflen gais a'r nodiadau canllaw perthnasol drwy ymweld â gwefan Heddlu De Cymru neu drwy gysylltu â'r Adran Trwyddedu Drylliau Tanio:		
Ffôn: 01656 869244 e-bost: firearms.licensing@south-wales.pnn.police.uk .		
I lawrlwytho ffurflenni cais, ewch i wefan yr heddlu: www.south-wales.police.uk		
Y ffurflenni cais sydd ar gael yw:		
Ffurflen 201 – Cais i Gael neu Adnewyddu Tystysgrif Arf Tanio a/neu Dystysgrif Dryll Ffurflen 201A - Nodiadau Canllaw Ffurflen 116 – Cais i gofrestru'n Werthwr Arfau Tanio Ffurflen 202 – Cais i amrywio Tystysgrif Arf Tanio Ffurflen 107 – Trwydded (Arf Tanio/Dryll) i Ymwelwyr â'r DU		
Rhaid anfon unrhyw ffurflenni cais a gwblhawyd, ynghyd â'r ffi berthnasol a ffotograffau, yn uniongyrchol i'r cyfeiriad canlynol:		
Yr Adran Trwyddedu Arfau Tanio, Uned Rheoli a Datgelu Data, Pencadlys yr Heddlu, Pen-		

HEB EI FARCIO'N DDIOGEL

y-Bont ar Ogwr. CF313SU.

Ni ddylid anfon arian drwy'r post a dylid gwneud sieciau yn daladwy i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru.

Ni fydd unrhyw orsaf heddlu na swyddog unigol yn derbyn ffurflenni.

Y broses gwneud cais (Heddlu De Cymru)

Rhaid bwrw golwg ar bob cais i wneud yn siŵr ei fod yn gyflawn ac yn gywir. Caiff y ffi ei derbynebu a chofnodir y manylion ar y System Rheoli Trwyddedu Arfau Tanio Genedlaethol (NFLMS).

Caiff digwyddiad ei greu ar NICHE i reoli a storio'r gwaith papur ar gyfer yr holl geisiadau a ddaw i law. Rheolir pob cam o'r broses adnewyddu/gwneud cais drwy dasg NICHE o'r digwyddiad.

Rhaid cynnal gwiriadau fetio mewn perthynas â'r ymgeisydd a'r canolwr/canolwyr er mwyn cadarnhau eu bod o gymeriad da.

Rhaid i bawb sy'n gwneud cais i gael arf tanio, tystysgrif dryll a chofrestru'n werthwr arfau tanio gael ymweliad gan swyddog ymholiadau arfau tanio.

Rhaid cynnal asesiad risg mewn perthynas â phob cais i adnewyddu tystysgrif arf tanio a dryll er mwyn penderfynu a oes angen cynnal ymweliad cartref.

Caiff yr holl wybodaeth sydd ar gael am ymgeisydd ei hasesu.

Bydd swyddog ymholiadau arfau tanio yn cwblhau adroddiad ac yn ei gyflwyno.

Caiff ceisiadau eu derbyn neu'u gwrthod ar sail eu rhinweddau unigol

Monitro ac asesu risg

Mae deilliaid tystysgrifau yn cael eu monitro'n barhaus

Pan fydd digwyddiadau'n codi sy'n ymwneud â deiliad tystysgrif neu gyfeiriad lle y cedwir drylliau, bydd yr holl wybodaeth a'r gudd-wybodaeth ar gael i'r adran trwyddedu arfau tanio drwy chwiliad awtomataidd ar NICHE.

Gofynnir i'r swyddog yn yr achos ystyried y risg bod arfau tanio ar gael ac os yw meddiant parhaus drylliau a thystysgrifau yn codi pryder ar y pryd neu yn ystod ymholiadau, dylid cael gwared ar y drylliau a'r dystysgrif/tystysgrifau ar unwaith.

Rhoddir cyfle i ddeiliaid tystysgrifau ildio eu harfau tanio a'u tystysgrifau. Fodd bynnag, os oes risg uniongyrchol i ddiogelwch y cyhoedd, rhaid cymryd camau priodol.

Caiff adolygiad o ddeiliad tystysgrif ei gynnal yn gyflym yn dilyn digwyddiad a/neu gael gwared ar arfau tanio er mwyn sicrhau addasrwydd parhaus.

ILDIO ARFAU TANIO A BWLEDI A CHETRIS

Ni ddylid rhwystro unrhyw un sy'n dymuno ildio arfau tanio neu fwledi a chetris. Dylai pobl sy'n awyddus i waredu arfau tanio a bwledi a chetris allu mynd â nhw i unrhyw orsaf heddlu.

Yn aml, nid yw pobl sy'n meddu ar arfau yn gwybod eu bod yn anghyfreithlon. Efallai eu bod yn cael eu cadw mewn cartrefi lle mae pawb wedi anghofio amdanynt neu efallai eu bod wedi cael eu trosglwyddo i feddiant eu perchenogion presennol ar ôl marwolaeth yn y teulu.

Os bydd unrhyw un yn ildio arf tanio sydd yn ei feddiant yn anghyfreithlon, dylid ei holi'n ofalus er mwyn ceisio darganfod hanes yr arf ond oni bai bod unrhyw amgylchiadau sy'n peri pryder difrifol am ei darddiad (e.e. mae'n ymddangos ei fod wedi cael ei ddwyn), ni ddylid pwysu ar yr unigolyn sy'n ei gyflwyno. Dylid canolbwyntio ar greu amgylchedd lle bydd pobl yn teimlo y gallant gyflwyno arfau tanio i'r heddlu a thrwy hynny sicrhau na chânt eu trosglwyddo o berson i berson.

Ildio Arfau Tanio/Bwledi a Chetris i Swyddog Ymholiadau Arfau Tanio:

Ar ôl ildio arfau tanio a/neu fwledi a chetris, bydd y swyddog ymholiadau arfau tanio yn archwilio'r eitemau i sicrhau eu bod yn ddiogel. Gofynnir i unigolion sy'n ildio arfau tanio a/neu fwledi a chetris lofnodi indemniad ar lyfr nodiadau poced electronig a chaiff yr eiddo ei gofnodi, ei becynnu a'i storio yn unol â'r weithdrefn Tystiolaethol - Eiddo.

Os credir bod unrhyw eitemau o ddiddordeb i NABIS neu os bydd angen cynnal profion ffforensig ar unrhyw eitemau, bydd y Swyddog Ymholiadau Arfau Tanio yn cysylltu â Storfa Arfau NABIS yn yr Uned Ymchwilio Gwyddonol ar y Cyd (JSIU) er mwyn trefnu bod rhywun yn dod i weld yr eitemau a'u casglu.

DEDDFWRIAETH A RHEOLEIDDIO:

- [Deddf Arfau Tanio 1968, fel y'i diwygiwyd](#)